## SUT MAE'R BRIFYSGOL YN GWARIO EI HINCWM 2025

Mae myfyrwyr wrth wraidd ein Prifysgol; rydym yn gweithio mewn partneriaeth â nhw a'n Hundeb Myfyrwyr er mwyn ystyried eu hanghenion a'u disgwyliadau wrth i ni wneud penderfyniadau.

Rydym yn ymfalchïo yn ein henw da cyson ar gyfer ansawdd ein profiad myfyrwyr, cryfder ein gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, a'n hymrwymiad i iechyd a lles meddyliol myfyrwyr.

Ein nod yw gwario'n ddoeth yr incwm rydym yn ei gael, ac fel elusen mae gennym gyfrifoldeb i ail-fuddsoddi unrhyw incwm ychwanegol ar ôl talu costau yn ôl i'r Brifysgol er mwyn ategu ein gweledigaeth a'n diben strategol.

Mae ein Hadolygiad Blynyddol ar gyfer 2025 yn darparu gwybodaeth fanwl am y mathau o weithgareddau y gwnaethom ddefnyddio ein hincwm i'w hariannu yn ystod y cyfnod o 1 Awst 2024 tan 31 Gorffennaf 2025.

Rydym yn cael incwm gan amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys ffïoedd myfyrwyr, grantiau'r llywodraeth a grantiau ymchwil, drwy greu ein hincwm ein hun drwy weithgareddau sy'n ymwneud â mentergarwch, arloesi ac addysg, gan gael rhoddion ac adenillon ar fuddsoddiadau.

Mae cyfran sylweddol o gyllid y Brifysgol yn cael ei gwario ar staff a gweithgareddau sy'n ategu addysgu ac ymchwil yn uniongyrchol.

Fodd bynnag, ceir costau sylweddol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau i fyfyrwyr, rheoli'r Brifysgol, a sicrhau bod ein hadeiladau, ein cyfleusterau a'n hoffer i gyd yn gweithredu'n effeithlon ac yn cael eu cynnal a chadw i safonau derbyniol.

Mae gwerth am arian ar gyfer ein staff a'n myfyrwyr wrth wraidd y Brifysgol. Nod yr wybodaeth yn y crynodeb a ddarperir isod yw dangos hyn drwy amlygu o ble daeth incwm y Brifysgol yn 2024/25 a sut cafodd ei wario.

## CANLYNIADAU ARIANNOL AR GYFER 2025

Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Gorffennaf 2025, creodd y Brifysgol incwm o £333m, gan nodi diffyg o £35m. Yn unol â llawer o sefydliadau yn y sector Addysg Uwch, wynebodd y Brifysgol heriau mawr o ran cyllid, ac mae'r rhain yn debygol o barhau. Lansiwyd Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol uchelgeisiol yn 2023/24 sydd ar waith o hyd, gan sicrhau'r arbedion gofynnol i barhau i ddiwallu anghenion a disgwyliadau ein myfyrwyr.


## O BLE Y DAW EIN HINCWM

Yn 2024/25, cynyddodd ein cyfanswm incwm 13% i £333 miliwn.

### Incwm fesul categori 2024/25

| Incwm | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025 (£m) |
|---|---|
| **Ffïoedd dysgu a chontractau addysg**<br>Mae incwm o ffioedd dysgu yn cynnwys ffioedd dysgu israddedigion ac ôl-raddedigion sy'n fyfyrwyr o'r DU a thramor. | 177 |
| **Grantiau Corff Ariannu**<br>Mae Medr yn rhoi grantiau i ategu addysgu, ymchwil a gweithgareddau perthynol. Mae grantiau'n cynnwys cyllid ar gyfer pynciau drutach a phynciau sy'n peri costau uwch, cyllid uwch ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a myfyrwyr anabl, cyllid ymchwil a chyllid arloesi. Dyrennir cyllid cyfalaf (£37m) i ategu addysgu ac ymchwil. | 39 |
| **Grantiau a chontractau ymchwil**<br>Mae hyn yn cynnwys grantiau ymchwil ac incwm contractio gan gynghorau ymchwil, llywodraethau a chyrff iechyd y DU a thramor, byd diwydiant ac elusennau. | 51 |
| **Incwm arall (gan gynnwys incwm buddsoddi, rhoddion a gwaddolion)**<br>Mae hyn yn cynnwys incwm o ffynonellau eraill gan gynnwys preswylfeydd myfyrwyr, ymgynghori, incwm academaidd arall, cynadleddau ac incwm gan y GIG o ran yr ysgol feddygaeth. | 66 |
| **Cyfanswm Incwm** | 333 |

### Incwm fesul blwyddyn



## SUT RYDYM YN GWARIO EIN HINCWM


Yn 2024/25, gwnaethom wario £361 miliwn wrth ategu ein gweithgareddau addysgu ac ymchwil, sydd wedi gostwng o £402 miliwn yn 2023/24. Cynlluniwyd y gostyngiad hwn mewn gwariant fel rhan o'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol, gan sicrhau dyfodol y Brifysgol. Gostyngodd y cyfanswm gwariant 10% ers y flwyddyn flaenorol, wrth i wariant academaidd ac academaidd-berthynol ostwng 3% yn unig.

### Gwariant fesul categori 2024/25

| Gwariant | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2025 (£m) |
|---|---|
| **Gwariant academaidd a pherthynol**<br>Mae hyn yn talu am y cymorth addysgu ac academaidd, ynghyd â'r offer a'r gwasanaethau i ategu addysgu. | 163 |
| **Grantiau a chontractau ymchwil**<br>Mae'r Brifysgol yn gweithio mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol i gynnal ymchwil sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang ac sy'n rhagorol yn rhyngwladol. | 38 |
| **Gweinyddu, gwasanaethau canolog a gwariant arall**<br>Dyma'r gost o ddarparu'r gwasanaethau i roi profiad o safon i fyfyrwyr. | 68 |
| **Mangreoedd**<br>Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r campysau, gan sicrhau bod cyfleusterau a mannau o'r radd flaenaf ar gael i'n myfyrwyr a'n hymchwilwyr. | 35 |
| **Preswylfeydd ac arlwyo**<br>Dyma wariant ar y preswylfeydd myfyrwyr a'r cyfleusterau arlwyo ar draws y ddau gampws. | 28 |
| **Llog ar fenthyciadau ac ad-daliadau**<br>Mae gan y Brifysgol fenthyciadau sylweddol a ddefnyddir i ehangu a gwella'r Campws a chyfleusterau. | 9 |
| **Ar gyfer buddsoddi yn ein dyfodol**<br>Gwneir buddsoddiadau mewn isadeiledd a gweithgareddau i sicrhau y gallwn barhau i gyflawni ar strategaeth y Brifysgol. | 20 |
| **Cyfanswm gwariant** | 361 |

Mae'r diagram isod yn dangos y gydran o bob £1 sy’n cael ei gwario ar y prif gategorïau gwariant.

**Manylion o'r gwariant fesul pob £1 wedi'i gwario**




**Mae rhagor o wybodaeth fanwl ar gael i'r cyhoedd yn yr Adolygiad Blynyddol .**